ehangwch eich gorwelion…
*broaden your horizons…*

LLWYBRAU

# COPA'R GOGARTH GREAT ORME SUMMIT

TRAILS


## CYFLWYNIAD



Mae sawl ffordd o gyrraedd copa'r Gogarth ond efallai mai'r ffordd orau i'r rhai sy'n teimlo'n ffit ac egnïol yw cerdded. Mae tri llwybr i'r copa gydag arwyddion ac maent yn rhoi digonedd o gyfleoedd i chi edrych ar y golygfeydd gwych ac maent yn eich arwain at nifer o leoedd diddorol ar hyd y daith. Nid oes ffordd well i fwynhau'r amrywiaeth eang o fywyd gwyllt y mae'r Parc Gwledig yn gallu ei gynnig ac i werthfawrogi'r mannau agored eang sy'n cael eu methu'n aml wrth deithio yn y car.

Mae'r holl lwybrau a ddisgrifir yn cychwyn o Prince Edward Square sydd ar y promenâd, gerllaw'r fynedfa i'r pier. Mae'r llwybrau wedi'u nodi ar y map sydd dros y dudalen. Rydym wedi disgrifio pob llwybr gan roi'r pellter cyfan ac amcangyfrif o'r amser y bydd yn ei gymryd i chi gwblhau'r daith wrth gerdded yn hamddenol a gorffwys yn rheolaidd.

Mae'r cyfeirbwyntiau yn nodi'r llwybr, mae llun o'r ddau isod:




**GERDDI HAULFRE**
(y daith hawsaf)
**Y FACH**
(y daith hiraf)
**IGAM-OGAM**
(y daith fwyaf serth)

Oherwydd wynebau anwastad a llethrau serth, nid yw'r llwybrau'n addas ar gyfer pramiau a chadeiriau olwyn. Mae'r Gogarth yn agored ac fel unrhyw fynydd, mae'r tywydd yn gallu bod yn anwadal. Rydym yn argymell eich bod yn gwisgo esgidiau cadarn ac yn mynd â dillad cynnes sy'n gwrthsefyll dŵr gyda chi er mwyn llwyr fwynhau'r daith. Mae bwyd a diod ar gael mewn gwahanol leoliadau ar hyd y llwybrau, gan gynnwys y Canolfan Sgïo, Ystafelloedd Te Haulfre, Ystafelloedd Te Mwynglawdd y Gogarth, y Fach a'r Ganolfan ar y copa.

Cymerwch eich amser i fynd o gwmpas y Ganolfan Ymwelwyr ar y copa, sydd ar agor rhwng y Pasg a mis Hydref. Gallwch gael gwybodaeth am y bywyd gwyllt lleol, daeareg y Gogarth a hanes rhyfeddol y Gogarth ar hyd yr oesoedd yno. Ewch i'r siop anrhegion bywyd gwyllt neu cymerwch daflen am un o lwybrau eraill y Parc Gwledig a'r ardal gyfagos.


## INTRODUCTION



There are many ways to reach the summit of the Great Orme but perhaps the most enjoyable for those feeling fit and energetic, is to walk. Three trails to the summit are waymarked to give you plenty of opportunity to take in the spectacular views and guide you past many places of interest along the way. There is no better way to enjoy the rich diversity of wildlife that the Country Park has to offer and to appreciate the vast open spaces often missed from the car.

All routes are described from a starting point at Prince Edward Square, which is next to the pier entrance on the promenade. Routes are marked on the map overleaf. Each route is described giving the overall distance and an estimate of how long it will take you to complete the walk relaxed pace with frequent short rests.

The directional waymarkers indicate the route, both are pictured below:




**HAULFRE GARDENS TRAIL**
(easiest route)
**HAPPY VALLEY TRAIL**
(longest route)
**ZIG ZAG TRAIL**
(steepest route)

Due to the uneven surfaces and steep gradients, the trails are not suitable for pushchairs or wheelchairs. The Great Orme is exposed and as with any mountain environment, the weather can be unpredictable. We recommend you wear stout footwear and carry warm, waterproof clothing to get the most enjoyment from your walk. There are refreshments available at various points along the routes including the Ski Centre, Haulfre Tearooms, the Great Orme Mines tearooms, Happy Valley and the Summit Complex.

Take time to look around the Visitor Centre at the summit, which is open between Easter and October. Here you can find out about the local wildlife, the Great Orme geology and the amazing historical story of the Great Orme through the ages. Visit the Wildlife Gift Shop or pick up a leaflet about the other trails around the Country Park and surrounding area.

# SUT YDW I'N MYND YNO?



**Ar drên/bws:**
I gael gwybodaeth am drenau i Landudno ffoniwch y Llinell Ymholiadau Trenau Cenedlaethol ar 08457 48 49 50 neu ewch i: www.nationalrail.co.uk
I gael gwybodaeth am wasanaethau ffoniwch Traveline Cymru ar 0871 200 22 33 neu ewch i www.traveline-cymru.org.uk
**Mae'r map yn dangos sut i gyrraedd y safle.**

**Mewn car:** Gadewch yr A55 yng nghyffordd 19 a dilyn yr A470 i mewn i Landudno. Mae mannau parcio ar ochr y ffordd ar gael yn y dref.

**I gael rhagor o wybodaeth am y Parc Gwledig**
**Ewch i:** www.conwy.gov.uk/ygogarth
**Ffôn:** 01492 874 151

**Mwy o deithiau cerdded yng Nghonwy**
Am fwy o wybodaeth a thaflenni am amrywiaeth o deithiau cerdded:
**Ewch i:** www.conwy.gov.uk/cefngwlad
**E-bost:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Ffôn:** 01492 575 290

# HOW DO I GET THERE?




**By train/bus:**
For information about trains to Llandudno, please phone the National Train Enquiry Line on 08457 48 49 50 or visit: www.nationalrail.co.uk
For information on services please phone Traveline Cymru on 0871 200 22 33 or visit www.traveline-cymru.org.uk
**See the map for details of how to reach the site.**

**By car:** Leave the A55 at junction 19 to follow the A470 into Llandudno. Roadside parking available in town.

**For more information on the Country Park**
**Visit:** www.conwy.gov.uk/greatorme
**Tel:** 01492 874 151

**More walks in Conwy**
For information and leaflets on a variety of walks
**Visit:** www.conwy.gov.uk/countryside
**Email:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Tel:** 01492 575 290




© Crown copyright and database rights 2011 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.
© Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCON100 2011

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Intermap Technologies Inc. Cedwir pob hawl DCON100 2011

***Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda***
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

***Please follow The Countryside Code***
Respect • Protect • Enjoy

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

*You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available;*

*You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.*

www.viewcreative.co.uk

## Llwybr Gerddi Haulfre



Geifr y Gogarth
*Great Orme goats*

Dyma'r llwybr cyflymaf a hawsaf i'r copa. Mae tua 1 milltir o hyd a dylai gymryd tua 1 awr i chi. Mae'r arwyddbyst yn dilyn cod lliw gwyrdd. ■ Ewch o Prince Edward Square a cherddwch ar hyd Rhodfa'r Eglwys a phasio Gorsaf Dramiau Victoria. ■ Cymerwch yr ail droad i'r dde, heibio'r orsaf dramiau a dilynwch yr arwyddion am Erddi Haulfre. Byddwch yn gweld arwyddbost y man cychwyn ar ochr chwith y ffordd, yn y gwely blodau union o flaen Ystafell De Haulfre a gyferbyn â'r toiledau cyhoeddus. ■ Ewch i fyny'r llwybr a'r grisiau sy'n ymdroelli drwy'r gerddi tan i chi gyrraedd giât sy'n arwain at y cwrs golff mini. ■ Ewch drwy'r giât a dilynwch yr arwyddbyst sydd ger y llwybr, i fyny heibio ymyl y cwrs ac at giât. ■ Trowch i'r dde pan fyddwch yn cyrraedd Llwynon Road a chroeswch y ffordd. ■ Trowch i'r chwith i fyny'r llwybr gyda grisiau, rhwng y tai sy'n arwain at Tyn y Coed Road. ■ Trowch i'r dde a chroeswch y ffordd eto ac edrychwch am lechwedd sy'n mynd i fyny ac i'r chwith tuag at gyfres o risiau. ■ Dilynwch y llwybr hwn tan i chi gyrraedd Teras Bryn Eisteddfod a throwch i'r dde unwaith eto. ■ Dilynwch y ffordd tan i chi gyrraedd troad i'r chwith i Pyllau Road. Dilynwch Pyllau Road gan fynd trwy giât ymhen ychydig ac yna hebio mynedfa Mwynglawdd Copr y Gogarth. ■ Dilynwch yr arwyddbyst ac yn fuan byddwch yn gallu gweld y copa i fyny'r bryn tua'r dde.

## Haulfre Gardens Trail



Ganolfan Ymwelwyr
*Visitor Centre*


This route is the quickest and easiest walk to the summit. It is approximately 1 mile long and should take you about 1 hour. The waymarker posts are colour coded olive green. ■ To start the trail from Prince Edward Square, walk along Church Walks passing the Victoria Tram Station. ■ Take the second turn on the right past the tram station, following the signs for Haulfre Gardens. You will see the start waymarker post on the left side of the road in the flower bed just before the Haulfre Tearooms and opposite the public toilets. ■ Go up the paths and steps which wind up through the gardens until you reach a gate leading onto the miniature golf course. ■ Go through the gate and follow the waymarker posts along the path up the side of the course to a gate exit at the top. ■ Go through the gate and turn right when you reach Llwynon Road and cross over. ■ Turn left up the stepped alleyway, between the houses, leading to Tyn y Coed Road. ■ Turn right and cross the road again and look for a slope going uphill and left leading to a set of steps. ■ Follow this track until you reach Bryn Eisteddfod Terrace and again turn right. ■ Follow the road until you reach a sharp left turn onto Pyllau Road. Follow Pyllau Road passing through a gate after a short while, and then past the entrance to the Great Orme Copper mines. ■ Follow the waymarker posts and you will soon be able to see the summit up the hill to your right.

## Llwybr y Fach

Mae'r llwybr hwn tua 1½ milltir o hyd a dylai gymryd tua 1½ awr i gyrraedd y copa. Mae'r arwyddbyst yn dilyn cod lliw glas. ■ O Prince Edward Square, ewch heibio'r fynedfa i'r pier tuag at y Grand Hotel. ■ Gyferbyn â mynedfa'r Grand Hotel, trowch i'r chwith a cherddwch i fyny'r bryn tuag at Erddi'r Fach. ■ Wrth y gylchfan mini, trowch i'r chwith i fyny'r bryn a chroesi i'r llwybr troed ar ochr dde'r ffordd. ■ Ar ôl y postyn man cychwyn, dilynwch yr arwyddbyst gyda'r band glas a'r disgiau 'i'r Copa', trwy'r gerddi at y giât a dilynwch y llwybr syn mynd i fyny heibio'r llethr sgïo. ■ Dilynwch y llwybr hwn i ben y llethr sgïo, gan fwynhau'r golygfeydd godidog dros Fôr Iwerddon. Mae golygfan wedi'i farcio ar y map tua hanner ffordd i fyny'r llwybr hwn ac ar ddiwrnod clir byddwch yn gallu gweld Ardal y Llynnoedd ac Ynys Manaw. ■ Ar ben y llethr sgïo, ewch i'r dde wrth yr arwyddbost a dal i fynd nes i chi gyrraedd giât mochyn ger ffermdy. ■ Ewch drwy'r giât mochyn ac yn syth drwy'r fferm ac allan drwy giât yr ochr arall. ■ Dilynwch y llwybr rhwng y ffensys at Ffynnon Powell, ffynnon naturiol sy'n gartref i fadfallod dŵr a brogaod ac yn fan lle mae bywyd gwyllt y Gogarth yn ei ddefnyddio'n aml i gael bwyd a diod. ■ Y man nesaf o Ffynnon Powell yw mynwent Sant Tudno, lle dylech chi droi i'r chwith a dilyn y ffordd i fyny'r bryn. ■ Chwiliwch am yr arwyddbost ar ochr dde'r ffordd, fydd yn eich cyfeirio i fyny'r bryn tuag at y copa a ellir ei weld ar y gorwel o'ch blaen.

## Happy Valley Trail

This route is approximately 1½ miles long and it should take about 1½ hours to reach the summit. The waymarker posts are colour coded blue. ■ From Prince Edward Square, walk past the pier entrance towards The Grand Hotel. ■ Opposite the Grand Hotel entrance, turn left and walk up the hill towards Happy Valley Gardens. ■ At the mini roundabout, turn left up the hill and cross onto the footpath on the right hand side of the road. ■ After the start post, follow the waymarker posts with a blue band and the 'To Summit' discs up through the gardens to the gate exit and onto the path up the side of the ski slope. ■ Follow this path to the top of the ski slope enjoying the magnificent views over the Irish Sea. There is a viewpoint marked on the map halfway up this path and on a clear day, you will be able to see the Lake District and the Isle of Man. ■ At the top of the ski slope bear right at the sign post then carry on until you reach a kissing gate at a farm house. ■ Go through the kissing gate and straight through the farm to exit through another gate. ■ Follow the path between the fences to Powell's Well, a natural spring inhabited by newts and toads and a regular feeding and drinking spot for the Great Orme's wildlife. ■ Next stop from Powell's Well is St Tudno's churchyard where you should turn left, following the roadway uphill. ■ Look out for the waymarker post on the right hand side of the road, directing you up the hill towards the summit which can be seen on the skyline above you.





© Crown copyright and database rights 2011 Ordnance Survey 100023380
Use of this data is subject to terms and conditions.
© Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCON100 2011

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Intermap Technologies Inc. Cedwir pob hawl DCON100 2011

## Allwedd | Key

- Môr / Sea
- Coed / Trees
- Adeiladau / Buildings
- Ffyrdd / Roads
- Trac / Track
- Llwybr Y Fach / Happy Valley Trail
- Llwybr Igam Ogam / Zig Zag Trail
- Llwybr Gerddi Haulfre / Haulfre Gardens Trail
- Cychwyn y Daith / Start of Trail
- Tramffordd / Tramway
- Car Cebl / Cable Car
- Canolfan Ymwelwyr / Visitor Centre
- Toiledau / Toilets
- Safle Picnic / Picnic Site
- Lluniaeth / Refreshments
- Golygfan / View point
- Grisiau / Steps
- Ffôn Argyfwng / Emergency Telephone
- Parcio / Parking
- Gorsaf Bws / Bus Station
- Man pasio i gerbydau symudedd / Mobility vehicle passing place



## Y Llwybr Igam-ogam

Mae'r llwybr hanesyddol hwn yn ffordd hawdd i fyny sgarp Penmorfa. Mae'r golygfeydd dros Foryd Conwy tuag at Eryri yn wych ac er bod y llwybr yn serth, mae digonedd o leoedd i orffwys ac edrych ar bopeth. Mae'r llwybr tua 1 milltir o hyd, o'i arwyddbost cyntaf ger Llwybr y Llesg. Y llwybr hwn yw'r un mwyaf serth, felly rhowch ddigon o amser i chi eich hun i orffwys. Dylai gymryd tua 1½ awr i chi. Mae'r arwyddbyst yn dilyn cod lliw du. Gallwch gychwyn ar y daith hon naill ai o Landudno neu o Benmorfa, fel a ganlyn:

**O Landudno:**
■ O Prince Edward Square, trwy ddilyn rhan gyntaf llwybr Gerddi Haulfre hyd at y toiledau cyhoeddus, ewch yn syth heibio Ystafelloedd Te Haulfre at giât sy'n mynd â chi at Lwybr y Llesg. ■ Dilynwch y llwybr hawdd tan i chi gyrraedd lloches ar y dde a byddwch yn gweld yr arwyddbost cyntaf.

**O Benmorfa:**
■ O Benmorfa, cerddwch ger y môr tuag at y Gogarth tan i chi gyrraedd y Tolldy ar y dde. ■ Ewch drwy'r giât sydd ger y Tolldy a throwch i'r dde i'r llwybr troed sy'n arwain i fyny'r bryn at Lwybr y Llesg. ■ Cerddwch ar hyd y llwybr tan i chi ddod at loches a byddwch yn gweld yr arwyddbost cyntaf ar y chwith. ■ Ewch i fyny'r bryn serth ar y llwybr gyda stepiau, gan basio 2 fainc tan i'r llethr fod yn llai serth a bydd arwyddbost yn pwyntio tua'r chwith.

■ Dilynwch y llwybr ar hyd y llechwedd gyda wal fferm o'ch blaen ar y dde. ■ Pan fydd y wal yn troi i fyny'r bryn byddwch yn gweld arwyddbost fydd yn eich cyfeirio at y troad i'r chwith ar y llwybr; dilynwch y llwybr hwn i'r llechwedd agored. ■ Ger yr arwyddbost nesaf trowch i'r dde a dilynwch y llwybr serth sy'n mynd drwy'r creigiau calchfaen. ■ Dilynwch y llwybr yn syth ymlaen tan y byddwch yn cyrraedd arwyddbost fydd yn eich cyfeirio i'r chwith. ■ Dilynwch y llwybr hwn ar hyd y llechwedd agored gan gymryd amser i fwynhau'r golygfeydd di-dor. Mae'r llwybr yn arwain at Chwarel yr Esgob lle byddwch yn gallu gweld y copa o'ch blaen.

## Zig Zag Trail

This historic trail gives easy access up the steep West Shore escarpment. The views across the Conwy Estuary to Snowdonia are breathtaking and although the route is on steep ground, there are plenty of places to rest and take it all in. The trail is about 1 mile long starting from the first waymarker post on Invalids' Walk. This is the steepest route so allow time for rests. It should take you about 1½ hrs. The waymarker posts are colour coded black. You can start this route from either Llandudno or West Shore as follows:

**From Llandudno:**
■ From Prince Edward Square, follow the first section of the Haulfre Gardens trail until the public toilets, then go straight past the Haulfre Tearooms to a gate leading onto Invalids' Walk. ■ Follow the easy trail until you come to a shelter on your right, where you will see the first waymarker post.

**From West Shore:**
■ From West Shore, walk along the sea front towards the Great Orme until you reach the Toll House on your right.
■ Go through the gate next to the Toll House and turn right onto the footpath which leads uphill onto Invalids' Walk.
■ Walk along until you come to a shelter and you will see the first waymarker post on your left. ■ Go steeply uphill on the stepped path, passing 2 benches until the slope becomes less steep and a waymarker post points left.

■ Follow the path along the side of the hill with the farm wall above you and to your right. ■ When the wall turns uphill you will see a waymarker post directing you along the left hand fork in the path, follow this path out onto the open hillside. ■ At the next waymarker post, turn sharply right and follow the steep path that leads up through the limestone cliffs. ■ Follow the path straight ahead until you reach a waymarker post directing you left. ■ Follow this path across the open hillside taking time to enjoy the uninterrupted views all around you. The pathway leads to Bishop's Quarry from where you will be able to see the summit ahead of you.

## Taith Gylch

Os ydych chi eisiau cwblhau taith gylch i'r copa a dychwelyd i Landudno, gallwch gerdded ar hyd unrhyw un o'r llwybrau i'r copa am yn ôl trwy ddilyn yr arwyddbyst 'i'r Dref'. Rydym yn argymell y llwybrau a ganlyn:

**I'r Copa gan ddilyn Llwybr y Fach:**
■ O Prince Edward Square, ewch tuag at y Fach ac ymuno â'r llwybr sy'n mynd â chi heibio'r Ganolfan Sgïo, gan aros i orffwys efallai ger yr olygfan a nodir ar y map, sy'n le ardderchog i fwynhau awel y môr a chael eich gwynt atoch.
■ Ewch ymlaen i fyny'r llwybr a thrwy'r fferm. ■ Trowch i'r chwith ger eglwys Sant Tudno ac ymlaen am y copa.
■ Mae man picnic wedi'i nodi ar y map sy'n edrych dros Môr Iwerddon a byddai'n le da i orffwys cyn y rhan olaf serth i'r copa.

**I'r dref gan ddilyn y Llwybr Igam-ogam:**
■ Gadewch y ganolfan ymwelwyr ac ewch i lawr y bryn gyferbyn â'r ffordd y daethoch i fyny. ■ Dilynwch yr arwyddion 'i'r Dref' ar arwyddbyst y llwybr Igam-ogam, sydd â band du o'u hamgylch. Bydd y llwybr hwn yn mynd â chi i lawr sgarp serth Penmorfa sydd â golygfeydd anhygoel o Eryri a Dyffryn Conwy. ■ Ewch ymlaen tan i chi gyrraedd Llwybr y Llesg. ■ Trowch i'r chwith a cherdded ar hyd y llwybr yn ôl tuag at y dref.

Mae'r llwybr cylch hwn tua 3½ milltir o hyd a dylai gymryd 3-4 awr i chi ei gerdded os byddwch yn cerdded yn hamddenol ac yn gorffwys yn aml.

## Circular Walk

If you would like to complete a circular route to the summit and return to Llandudno, you can walk any of the summit trails in reverse by following the "TO TOWN" waymarkers. The following routes are recommended:

**To the Summit via Happy Valley Trail:**
■ From Prince Edward Square, go up to Happy valley and join the trail which takes you up past the Ski Centre, perhaps stopping to rest at the view point marked on the map which is an excellent place to take in the sea breeze and catch your breath. ■ Carry on up the trail and through the farm. ■ Turn left at St. Tudno's church and head for the summit. ■ A picnic spot is marked on the map overlooking the Irish Sea and would be a good place to rest before the final steep section to the top.

**To the Town via Zig-Zag Trail:**
■ Leave the visitor centre and head off down the opposite side of the hill to the one you came up. ■ Follow the "TO TOWN" signs on the waymarker posts of the Zig Zag trail which have a black band around them. This path will lead you down the steep West Shore escarpment with incredible views of Snowdonia and the Conwy Valley. ■ Carry on until you reach Invalids' Walk. ■ Turn left on the path and follow it back towards town.

This circular walk is approximately 3½ miles long and should take you 3-4 hours if you walk at a leisurely pace and take plenty of rests.